**Atodiad A**

| Cyfeirnod | Mater gyda goblygiadau cyllidol | Pennaeth Gwasanaeth / Swyddog | Swm y cais gwreiddiol | | Argymhellion y Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad | Symiau yr argymhellir eu cyllido | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Parhaol | Unwaith ac am byth | | Parhaol | Unwaith ac am byth | Ffynhonnell Arall |
| **CEFNOGAETH GOFAL CWSMER** | | | | | | | | |
| **ADN2** | **Ariannu swydd peiriannydd rhwydwaith**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Cynyddu capasiti y Tîm Rhwydwaith o 3 i 4 aelod o staff. Nid yw'r lefelau staff wedi tyfu'n gyfochrog â'r gwaith a chyfrifoldebau sydd wedi disgyn ar y tîm.<br>Mae ystâd rwydweithiol y Cyngor wedi tyfu o 100 o safleoedd yn 2001 i dros 250 yn 2008.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Methu ymateb i drafferthion rhwydwaith yn ddigon cyflym sy'n golygu bod defnyddwyr heb fynediad at systemau sy'n angenrheidiol i'w gwaith am gyfnodau estynedig. Methu ymateb i drafferthion ar y systemau ffôn yn brydlon. | Gwenan Parry | £35,800 | £0 | Cefnogi ar sail dros dro ar yr amod bod adolygiad o'r strwythur TG i'w gynnal yng ngholeuni y Strategaeth TG newydd. | £0 | £35,800 | £0 |
| **ADN3** | **Cynnal Cofrestr Tir & Eiddo'r Cyngor**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Parhau â chytundeb y Swyddog Cofrestru Tir ac Eiddo er mwyn cynnal y gofrestr tir ac eiddo (CTE) lleol. Mae diweddaru'r gwaith yma yn rhan o'r 'Mapping Service Agreement' (MSA) ac yn gyfrifoldeb i'r swyddog. Byddai peidio â chynnal a datblygu'r CTE yn risg i rai o brif systemau'r Cyngor.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Mae gan y Cyngor y dewis i beidio ag arwyddo'r MSA yn Ebrill 2009. O wneud hyn byddai'n rhaid talu'r pris llawn am nwyddau'r OS fyddai'n uwch na'r gost o fod yn rhan o'r MSA. Byddai hyn yn amharu ar allu'r Cyngor i gydymffurfio ag anghenion y llywodraeth megis cyflenwi data ar gyfer rhestr etholwyr ar-lein a chyfrifiad 2011. | Gwenan Parry | £37,750 | £0 | Cefnogi'r bid. Byddai buddsoddi yn y swydd yn<br>a) arbed costau uwch i'r Cyngor, a<br>b) sicrhau gwybodaeth gywir i'r Cyngor ar gyfer rhedeg ei fusnes yn effeithlon a chywir. | £37,750 | £0 | £0 |
| **ADN4** | **Refeniw ychwanegol i dalu am gostau rhedeg rhwydwaith cyfrifiadurol y Cyngor**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Mae'r bid hwn er mwyn prynu mwy o gapasiti ar y rhwydwaith. Mae'n angenrheidiol uwchraddio rhwydwaith ardal eang y Cyngor er mwyn sicrhau ei safon, cyflymdra ac argaeledd. Nid yw'r rhwydwaith fel y mae yn ddigon mawr i gario traffig cynyddol y Cyngor.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Dirywiad sylweddol mewn cyflymdra ac argaeledd y rhwydwaith. Mae cyfran sylweddol o'r 2500 o weithwyr sy'n defnyddio technoleg, sy'n cynnwys gweithwyr sy'n delio â'r cyhoedd, gwasanaethau TG o fewn ysgolion, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden, yn methu gweithio mor effeithlon. Mae costau cynnal a thrwsio yn cynyddu. | Gwenan Parry | £70,000 | £0 | Twf anorfod felly argymhellir cyllido yn llawn | £70,000 | £0 | £0 |
| **ADN5** | **Cydymffurfio â gofynion statudol yr 'European Energy Performance of Buildings Directive 2002'**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Bid i ariannu ymghynghorwyr allanol i weithredu ar ran y Cyngor i gwrdd â gofynion Erthygl 7 o'r 'European Energy Performance of Buildings Directive 2002' sy'n gosod goblygiadau statudol ar Awdurdodau Cyhoeddus i gynhyrchu 'Display Energy Certificate' (DEC) ar gyfer pob adeilad sydd dros 1000m² mewn arwynebedd - Mae gan y Cyngor 87 adeilad o'r maint yma. Penodi ymgynghorwyr allanol i wneud y gwaith yw'r ffordd fwyaf cost effeithiol o weithredu.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>• Dirwy flynyddol o £135,000<br>• Colli cyfle i wneud arbedion mewn defnydd ynni ac arllwysiadau $CO^2$. | Gwenan Parry | £14,500 | £26,000 | Argymhellir cyllido'r bid gan mai dyma'r ffordd fwyaf cost effeithlon o sicrhau cyflawni'r gwaith ac osgoi dirwy o £135,000 i'r Cyngor yn flynyddol. | £14,500 | £26,000 | £0 |

| Cyfeirnod | Mater gyda goblygiadau cyllidol | Pennaeth Gwasanaeth / Swyddog | Swm y cais gwreiddiol | | Argymhellion y Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad | Symiau yr argymhellir eu cyllido | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Parhaol | Unwaith ac am byth | | Parhaol | Unwaith ac am byth | Ffynhonnell Arall |
| **CYLLID** | | | | | | | | |
| **ADN7** | **Gweithredu gofynion cyfrifo newydd yr IFRS.**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Bid tuag at gostau gwasanaethau proffesiynol arbenigol i gynorthwyo a chynghori i weithredu'r gofynion newydd ar gyfer cyflwyno cyfrifon statudol llywodraeth leol yn unol â'r "International Financial Reproting Standards".<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Gofynion statudol i gyflwyno ac adrodd ar gyfrifon yn unol â'r gyfundrefn IFRS o 2010-11 ymlaen. Risg o'r Cyngor fethu â gallu gweithredu o fewn yr amserlen statudol benodedig oni bai fod y trefniadau a'r sustemau ychwanegol perthnasol yn eu lle mewn amser da. | Dafydd Edwards | £0 | £15,000 | Y gwasanaeth i gyllido'r bid o adnoddau cyfredol. | £0 | £0 | £15,000 |
| **GWEINYDDOL A GWARCHOD Y CYHOEDD** | | | | | | | | |
| **ADN9** | **Trwyddedu Hawlfraint**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Yn gyfredol nid oes gan y Cyngor drwydded hawlfraint ac mae felly yn agored i'w erlyn os yw'n copio gweithiau ysgrifenedig.<br>Mae'r bid yma ar gyfer pwrcasu trwydded, ac mae cost y drwydded yn seiliedig ar nifer y staff a gyflogir ar raddfa scp39 ac uwch. Mae'r swm a nodir yn seiliedig ar nifer y swyddogion ar y graddfeydd yma ar hyn o bryd.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Mae risg i'r Cyngor o beidio cael trwydded gan nad oes hawl i wneud copi o unrhyw gyhoeddiad. Gallai tramgwyddo roi'r hawl i iawndal a/neu erlyniad. | Dilys Phillips | £5,700 | £0 | Argymhellir cyllido'r bid anorfod hwn. | £5,700 | £0 | £0 |
| **ADN8** | **Lwfansau Aelodau**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau yn argymell uchafsymiau ar gyfer lwfansau aelodau. Nid oes raid i'r Cyngor dalu'r uchafsymiau ond mae adroddiad y Panel yn annog pob Cyngor i gydnabod rôl y cynghorydd fel un proffesiynol ac i dalu'r uchafswm.<br>Pe byddai'r Cyngor yma yn dewis talu'r uchafswm byddai angen £270,808 ychwanegol yn y gyllideb eleni a swm cyffelyb + chwyddiant ar gyfer 2009/10.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Dim newidiadau i'r trefniadau presenol. | Dilys Phillips | £270,808 | £0 | Gwaith Grŵp Busnes y Cyngor (10-11-08) yn argymhell codi lwfansau Gwynedd i gydfynd â gweddill Cymru. Awgrymir codi'r lwfansau sylfaenol i'r uchafswm dros gyfnod o ddwy flynedd. Argymhellir £45k parhaol i gyllido'r lwfans sylfaenol yn unig ar hyn o bryd, gan ymglymu £45k parhaol arall ar gyfer 10/11. Argymhellir hefyd cyllido'r lwfans ar gyfer aelodau cyf-etholedig gan nad oes darpariaeth ddigonol ar hyn o bryd (cost o £8,200). | £53,200 | £0 | £0 |
| **CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH** | | | | | | | | |
| **AMG8** | **Adroddiadau Arbenigol gan arbenigwyr allanol**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Bid ar gyfer sefydlu cyllideb er mwyn cwrdd â chostau arbenigwyr ar geisiadau cynllunio cymhleth. Mae'r swyddogion a phwyllgorau cynllunio ardal a chanolog yn gorfod ymdrin â cheisiadau cymhleth e.e. ceisiadau uwchfarchnadoedd, archfarchnadoedd, a.y.y.b. ble mae angen barn arbenigwyr er ymateb i'r manylion manwl a gyflwynir gyda'r ceisiadau gan arbenigwyr ar ran y cwmniau masnachu.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Gall peidio darparu tystiolaeth arbenigol arwain at ddyfarniad costau sylweddol yn erbyn y Cyngor. Mae gofynion cenedlaethol a pholisi lleol yn golygu bod angen i'r Cyngor ymgymeryd â gwaith ychwanegol wrth ystyried ceisiadau cynllunio e.e. rhaid asesu adroddiadau effaith ieithyddol, amgylcheddol ayb ac yn aml nid oes gan y Cyngor yr arbenigedd i wneud y gwaith yn fewnol. Er enghraifft gwariwyd £17k ar asesiad effaith manwerthu ASDA Pwllheli a dros £6k (mwy nag unwaith) ar asesiad Ffordd Farrar Bangor. Golyga hyn fod y gost o ymdrin â chais yn uchel a dim cyllideb ar gael i wneud y gwaith sydd yn arwain at orwariant. Mae'r broblem wedi ei chuddio trwy incwm mewn cyfnod o dwf, ond yn amlygu ei hun pan fo amgylchiadau economaidd yn anodd. | Aled Davies | £45,000 | £0 | Argymhellir ariannu'r bid ar sail unwaith ac am byth. Bydd yn ofynnol adolygu'r sefyllfa i'r dyfodol yn sgil y newidiadau yn yr hinsawdd economaidd a all arwain at leihad yn y ceisiadau mawr fyddai angen cefnogaeth o'r fath. | £0 | £40,000 | £0 |

**Atodiad A**

| Cyfeirnod | Mater gyda goblygiadau cyllidol | Pennaeth Gwasanaeth / Swyddog | Swm y cais gwreiddiol | | Argymhellion y Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad | Symiau yr argymhellir eu cyllido | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Parhaol | Unwaith ac am byth | | Parhaol | Unwaith ac am byth | Ffynhonnell Arall |
| AMG8b | **Adroddiadau Arbenigol ar gais aelodau**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Mae sefyllfaoedd yn codi yn ddiweddar lle mae angen sicrhau tystiolaeth arbenigol a chymorth ymgymerwyr allanol mewn achosion o apeliadau. Mae hyn yn hynod berthnasol lle bod yr aelodau wedi mynd yn groes i farn y swyddogion, ac o'r herwydd, ni all y swyddogion eu cynrychioli yn yr apeliadau gan eu bod wedi cefnogi'r cais a bod angen paratoi achos/tystiolaeth sydd â chanlyniad gwahanol i gasgliadau swyddogion proffesiynol.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Mae enghreifftiau yng Ngwynedd o orfod talu costau apeliadau sylweddol e.e. achos Y Wern ble talwyd dros £30k i'r apelydd heb sôn am gostau ychwanegol arbenigol i'r Cyngor a bu i'r Cyngor dalu dros £10k mewn costau cyfreithiol ac arbenigol i ymladd apêl (a gollwyd) ar sail dyluniad ym Mangor. Mae enghraifft o hyn yn Sir Benfro yn ddiweddar ble bu i'r Cyngor wrthwynebu mast telathrebu ar sail pryderon iechyd a gorfod talu allan dros £90k | Aled Davies | £45,000 | £0 | Sefydlu cronfa ar gyfer sicrhau cefnogaeth/tystiolaeth berthnasol mewn sefyllfa o'r fath. Bydd disgwyl i'r gwasanaeth godi ymwybyddiaeth o'r goblygiadau ariannol sydd ynghlwm gydag aelod yn mynd yn groes i arymhelliad swyddogion y Cyngor. | £0 | £40,000 | £0 |
| AMG12 | **Gwasanaethau Bysiau**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Mae angen yr arian er mwyn ail-dendro contractau bysiau. Gwnaethpwyd amcangyfrif yn ôl ychwanegiadau cyfartalog o 20%. Byddai'r cynllun yn effeithio ar 199,550 teithwyr bws bob blwyddyn yn ogystal â gwaith i bobl leol gyda cwmniau bysiau.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Byddai angen torri ar wasanaethau bysiau. Risg i'r Cyngor o beidio sicrhau cynhwysiad cymdeithasol i drigolion yr ardal. | Aled Davies | £65,000 | £0 | Arian pontio am 2009/10 yn unig ar yr amod y cyflawni'r adolygiad llwybrau gyda'r nod o sefydlu sylfaen ariannu gynaliadwy mewn da bryd ar gyfer blwyddyn ariannu 2010/11 | £0 | £65,000 | £0 |
| AMG13 | **Llwybr 38 Maentwrog Oakeley Arms - Abermaw**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Cafodd gwasanaeth 38 ei ail-dendro ym mis Gorffennaf 2008. Hyd yn oed ar lefel o wasanaeth is, mae cost y contract yn sylweddol uwch. Mae'r bid ar gyfer ariannu'r gwarged presenol.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Mae llwybr 38 yn un strategol bwysig. Buasai rhaid torri amlder i lefel is na'r lefel datganir yn y strategaethau perthnasol. Gallai hyn arwain at ddiffyg mynediad i gyfleusterau lleol mewn ardal wledig. | Aled Davies | £129,000 | £0 | Arian pontio am 2009/10 yn unig ar yr amod y cyflawni'r adolygiad llwybrau gyda'r nôd o sefydlu sylfaen ariannu gynaliadwy mewn da bryd ar gyfer blwyddyn ariannu 2010/11 | £0 | £129,000 | £0 |
| AMG15 | **Cynlluniau Datblygu - swyddog Cynllun Datblygu lleol, Cynllun Datblygu Unedol**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Cynnal capasiti presennol yr adnodd angenrheidiol ar gyfer y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol yn ei gyfanrwydd, a chwblhau'r Cynllun Datblygu Unedol. Cyflogi Swyddog ar sail barhaol yn hytrach na chytundeb dros dro.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Byddai methu cyllido'r bid yn gallu arwain at golli aelod allweddol o'r Tim. Byddai hefyd yn debygol o arwain at fethiant i gael sel bendith y Cynulliad i'r cam statudol cyntaf yn y broses o baratoi'r CDLl, sef cytuno i'r Cytundeb Cyflawni. | Aled Davies | £39,100 | £0 | Cyngor wedi cytuno trosglwyddo'r gwasanaeth i gyfrifoldeb y Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio a Thrafnidiaeth fel rhan o'r adolygiad rolau / adolygiad polisi a pherfformiad. Y gwasanaeth i gyllido'r swydd. | £0 | £0 | £39,100 |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | | | | | | | |
| AMG19 | **PB4.3 Llwyn Isaf - Cost y dunnell yn uwch am waredu**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Costau ynghlwm â mynediad i'r safle yn Llwyn Isaf. Adlewyrchu cynnydd yn y gost gyfredol.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Ni fyddai'r Cyngor yn gallu cael mynediad i safle Llwyn Isaf ar gyfer gwaredu gwastraff y Sir. | Gwyn Morris Jones | £62,500 | £0 | Costau uwch anorfod o ran mynediad i'r safle. Argymell cyllido i gynnal y gwasanaeth cyfredol | £62,500 | £0 | £0 |

| Cyfeirnod | Mater gyda goblygiadau cyllidol | Pennaeth Gwasanaeth / Swyddog | Swm y cais gwreiddiol | | Argymhellion y Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad | Symiau yr argymhellir eu cyllido | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Parhaol | Unwaith ac am byth | | Parhaol | Unwaith ac am byth | Ffynhonnell Arall |
| **PLANT A THEULUOEDD** | | | | | | | | |
| **DAT7** | **Cefnogi Cynlluniau Plant sy'n Derbyn Gofal**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu dros y 5 mlynedd diwethaf ond nid yw'r gyllideb i gefnogi cynlluniau ar gyfer y plant hyn wedi codi. Yn gyfredol mae diffyg adnodd i greu cynlluniau ar gyfer plant gydag anghenion dwys, byddai parhau i gyflogi Gweithiwr Cymdeithasol 0.75 FTE yn galluogi mwy o sylw dwys i blant penodol gyda'r potential i'w galluogi i ddychwelyd adref yn gynt.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Parhau gyda gorwariant yn y Gwasanaeth. Diffyg ymateb yn amserol i ofynion y plant mewn gofal. | Glyn Hughes | £29,250 | £0 | Ariannu dros dro (cyfnod o 2 flynedd) i weld os oes effaith ar leihau'r gor-wariant presennol. Y gwasanaeth wedyn i gwrdd â'r costau o'r gyllideb bresenol. | £0 | £58,500 | £0 |
| **DAT9** | **Lwfans Gwarcheidiaeth Arbennig**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Daeth y Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig yn weithredol yn Ionawr 2006 ac mae costau penodol ynghlwm â'r lleoliadau hyn. Mae'r "Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig" yn cynnig opsiwn lleoli parhaol y tu allan i'r system gofal, gyda statws cyfreithiol penodol. Wrth drafod unrhyw achos yn y llys mae'n orfodol i'r gwasanaeth i asesu addasrwydd y sefyllfa ac i gynnal asesiad ariannol.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Mae gwir beryg i Wynedd wynebu achos o adolygiad barnwrol os na chaiff y lwfans ei dalu ar y lefel gywir. Mae data ynglŷn â Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig yn Lloegr yn dangos iddynt gynyddu dros amser. Daeth y ddeddfwriaeth i rym yng Nghymru blwyddyn ar ôl Lloegr, felly ni allwn ond tybio y bydd yr un patrwm yn dilyn. | Glyn Hughes | £30,000 | £0 | Ariannu am sicrhau lleihau gor-wariant ym maes plant mewn gofal, ac yn gyson gyda Strategaeth 'ymyrraeth gynnar'.<br><br>Argymhellir ymrwymo £15k yn barhaol yn 09/10, ac ymrwymo £15k ychwanegol yn barhaol o 10/11 ymlaen. | £15,000 | £0 | £0 |
| **DAT11** | **Gwasanaeth Maethu**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Rhagwelir gor-wariant pellach ar y gyllideb maethu yn 2009/10 o £332,000. Er bod y strategaeth maethu yn cael dylanwad clir, mae Gwynedd wedi derbyn penderfyniad llys barnwrol ynghylch lleoliadau rhai plant penodol (32 ohonynt) sy'n golygu na all y strategaeth arwain at gadw o fewn y gyllideb ar hyn o bryd. Rhagwelir y gellir cadw o fewn y gyllideb yn 2010-11.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Er bod y gwariant bellach yn dechrau lleihau mae'r gyllideb yn parhau i fod yn "volatile". Trwy fuddsoddiad yn y gwasanaeth maethu mewnol a strategaeth recriwtio glir llwyddwyd i weld cynnydd cadarnhaol yn y nifer o rieni maeth a recriwtiwyd. Golyga hyn yn ei dro dewis gwell o leoliadau a llai o ddibyniaeth ar y sector annibynol sydd â chost uned llawer drytach. Mae parhad o'r strategaeth yma yn allweddol. | Glyn Hughes | £0 | £332,000 | Argymhellir ariannu am flwyddyn yn unig - arian unwaith ac am byth. Achos busnes maethu heb ei wireddu oherwydd penderfyniad llys barnwrol ac felly angen cyllid ychwanegol dros dro gyda'r cynllun 'on trac' i wireddu erbyn 10/11. | £0 | £332,000 | £0 |
| **DAT14** | **Gweithiwr Cymdeithasol - Plant ag Anableddau Dysgu**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Mae bid am weithiwr cymdeithasol a fu'n llwyddiannus 2 flynedd yn ôl (am gyfnod o 2 flynedd) yn dod i ben mis Tachwedd 2009. Mae'r angen am y swydd yn parhau gan fod y niferoedd sydd angen y gwasanaeth wedi cynyddu. Mae'r swydd yn gyfrifol am asesu angen, darparu gwasanaeth, creu pecynnau gofal, ateb gofynion statudol a mesuriadau perfformiad.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Achosion ar restr aros – oddeutu 30 – 40 gan bob gweithiwr. Byddai'r rhestr aros yn cynnyddu petai'r swydd ddim yn parhau.<br>Methu ateb mesuriadau perfformiad<br>Methu asesu anghenion a darparu gwasanaeth | Glyn Hughes | £42,080 | £0 | Achosion wedi cynyddu yn cadarnhau'r angen am y swydd yn barhaol.<br><br>Argymhellir ariannu ar sail £42,080 yn barhaol, gyda'r angen i ariannu am gyfran o 09/10 yn unig (sef £30,550) | £30,550 | £0 | £0 |

| Cyfeirnod | Mater gyda goblygiadau cyllidol | Pennaeth Gwasanaeth / Swyddog | Swm y cais gwreiddiol | | Argymhellion y Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad | Symiau yr argymhellir eu cyllido | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Parhaol | Unwaith ac am byth | | Parhaol | Unwaith ac am byth | Ffynhonnell Arall |
| **YSGOLION** | | | | | | | | |
| **DAT2** | **Costau lleoliadau addysgol all-sirol i ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Bid i gwrdd â gor-wariant presennol y gwasanaeth. Mae'r gor-wariant yn bennaf oherwydd cynnydd net yn nifer a chost lleoliadau addysgol plant.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Gor-wariant sylweddol yng nghyllideb y Gwasanaeth Ysgolion | Dewi R Jones | £164,000 | £0 | Anorfod i gynnal y gwasanaeth ar ei lefel gyfredol - argymhellir cyllido | £164,000 | £0 | £0 |
| **DAT3** | **Cludiant Ysgolion - Cynnydd yn y costau yn deillio oherwydd ail-dendro a chostau uwch**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Prif faterion-<br>• £75,000 yn adlewyrchu gor-wariant presennol bysus i'r ysgolion<br>• £72,000 yn adlewyrchu gor-wariant presennol ar dacsis a bysiau mini<br>• £57,000 yn adlewyrchu cynnydd yn y costau trwy ail tendro bysus Meirionnydd o Dachwedd 2008, a thacsis a bysiau mini Arfon o Ebrill 2009.<br>• £34,000 Diffyg incwm cytundeb llwybr 17D<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Toriadau yng nghyllidebau eraill y Gwasanaeth Ysgolion er sicrhau cadw'r lefel gwasanaeth presennol | Dewi R Jones | £238,000 | £0 | Cynnydd yn y costau yn deillio o dendrau uwch - adlewyrchu'r gwir gost am 09/10. Sefyllfa i'w adolygu mewn perthynas â chanlyniad gwaith adolygiad gweithgor ysgolion ynghylch trefniadau teithio i ysgolion | £238,000 | £0 | £0 |
| **DAT4** | **Diswyddiadau gorfodol/gwirfoddol athrawon a staff eraill mewn ysgolion**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Mae cyfanswm y gyllideb diswyddo gorfodol/gwirfoddol yn is na'r gwariant a'r galw ar y gyllideb. Effaith ariannol lleihad yn y nifer disgyblion yn ysgolion Gwynedd sydd fel arfer yn arwain at yr angen i ddiswyddo.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Gor-wariant sylweddol yng nghyllideb y Gwasanaeth Ysgolion | Dewi R Jones | £136,000 | £0 | Anorfod i gynnal y gwasanaeth ar ei lefel gyfredol - argymhellir cyllido | £136,000 | £0 | £0 |
| **DAT5** | **Gor-wariant ar y Cyllideb Integreiddio**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Rhagor o ddisgyblion ifanc yn derbyn datganiad neu adroddiad 3 seren, a rhain yn rhai sydd angen llawer o gymorth. Mae'r bid yn adlewyrchu'r angen i gyllido mwy o becynnau dwys. Nifer fechan iawn o ddisgyblion sydd yn cael llai o gymorth wrth fynd drwy'r system.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Gor-wariant sylweddol yng nghyllideb y Gwasanaeth Ysgolion | Dewi R Jones | £220,000 | £0 | Argymhellir ariannu ar yr amod bod datganoli cyllid integreiddio yn llawn yn 09/10 yn digwydd yn unol â'r cynllun datganoli cytunedig, gan nad yw'r sefyllfa gyfredol yn gynaliadwy | £220,000 | £0 | £0 |
| **DAT13** | **Cefnogaeth systemau electronig Gwasanaeth Ysgolion**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Cais i gyllido cefnogaeth system electronig i'r gwasanaeth ysgolion a fydd yn sicrhau fod y gwasanaeth yn gallu cael mynediad yn uniongyrchol at wybodaeth sy'n cael ei gasglu gan yr ysgolion gan nad yw hynny'n bosibl yn gyfredol.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Dim cefnogaeth arbenigol i system electronig y Gwasanaeth | Dewi R Jones | £32,161 | £0 | Argymhellir clustnodi cronfa dros dro i alluogi'r datblygiad anorfod hwn, gyda'r gwasanaeth i adnabod arbedion effeithlonrwydd a gynhyrchir gan y system ar gyfer cyllido'r elfen yma yn barhaol. | £0 | £32,000 | £0 |

**Atodiad A**

| Cyfeirnod | Mater gyda goblygiadau cyllidol | Pennaeth Gwasanaeth / Swyddog | Swm y cais gwreiddiol | | Argymhellion y Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad | Symiau yr argymhellir eu cyllido | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Parhaol | Unwaith ac am byth | | Parhaol | Unwaith ac am byth | Ffynhonnell Arall |
| **DAT16** | **Cynllun Lleihau Maint Dosbarthiadau**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Cyllideb barhaol i gyflogi 7 neu 8 athro a fyddai'n cael eu dosbarthu i Ysgolion gyda maint dosbarthiadau mawr (dros 30 yn gyntaf). Lleolir yr athrawon yn unol â meini prawf penodol. Roedd 27 dosbarth o dros 30 yn ysgolion Gwynedd ym Medi 2008.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Dosbarthiadau o dros 30 gydag un athro yn unig yn anghyfreithlon yn CA1 ac yn erbyn disgwyliadau/arweiniad y Cynulliad yn CA2<br>Gall fod plant y dosbarthiadau dan anfantais sylweddol gydag effaith ar ansawdd eu haddysg. | Dewi R Jones | £300,000 | £0 | Argymhellir cefnogi'r cynllun fydd yn ogystal â'r buddion a nodwyd yn gallu lleihau costau diswyddo drwy gynnig cyflogaeth i athrawon sy'n colli swyddi. Cyfraniad i gyd gyllido gyda £100,000 gan yr ysgolion a £100,000 gan y Gwasanaeth Ysgolion. | £100,000 | £0 | £200,000 |
| **COR1** | **Lleihau targed gwahaniaethol yr ysgolion uwchradd i lefel yr ysgolion cynradd**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Argymhelliad y Bwrdd Rhaglen Adnoddau Corfforaethol y dylid addasu canran targed arbedion uwchradd o 0.8% i 0.5% i gyd-fynd â'r targed cynradd ar gyfer 2009/10.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Lefel arbedion yn anghyson gyda thystiolaeth o wariant cymharol. | Dewi Jones / Geraint George | £130,000 | £0 | Tystiolaeth gymharol yn awgrymu marc cwestiwn parthed lefel cyllido. Argymhellir cyllido | £130,000 | £0 | £0 |
| **GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** | | | | | | | | |
| **GOF1** | **Cyflwyno uwch ymarferwyr o fewn i'r gwasanaeth Oedolion**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Cyflwyno strwythur sy'n sicrhau cefnogaeth addas i staff heb gymhwyster o fewn y strwythur, tri asesydd a tri uwch ymarferydd. Cryfhau trefniadau rheoli perfformiad o fewn y Gwasanaeth. Sicrhau defnydd priodol o sgiliau staff. Gwella gallu Cyngor Gwynedd i ymateb i ofynion statudol. Gwella gallu'r gwasanaeth I gyflawni ar asesiadau / adolygiadau.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Methiant cydymffurfio â disgwyliadau cenedlaethol a lleol ynglŷn ag ansawdd darpariaeth. Methu cefnogi staff yn addas. | Gwen Carrington | £134,040 | £0 | Cefnogi'r bid yn unol ag uchelgais y Cyngor i wella Gwasanaethau Cymdeithasol mewn ymateb i'r Adolygiad ar y cyd. Y Pennaeth Gwasanaeth wedi blaenoriaethu cyllideb, sy'n cynnwys tanwariant a lwfans demograffig | £0 | £0 | £134,040 |
| **GOF3** | **Cefnogaeth weinyddol i Swyddog POVA a Phennaeth Oedolion**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Creu swydd rhan amser i roi cefnogaeth weinyddol i ddau swyddog ac i gymryd cofnodion mewn cyfarfodydd POVA yn yr ardaloedd. Yn ogystal gweithredu fel rhan o dîm gweinyddol canolog i roi cefnogaeth i Bennaeth Gwas Cym a'r Rheolwyr Gwasanaeth.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Parhau gyda'r sefyllfa bresennol | Gwen Carrington | £21,620 | £0 | Cefnogi'r bid yn unol ag uchelgais y Cyngor i wella Gwasanaethau Cymdeithasol mewn ymateb i'r Adolygiad ar y cyd. Y Pennaeth Gwasanaeth wedi blaenoriaethu cyllideb, sy'n cynnwys tanwariant a lwfans demograffig | £0 | £0 | £21,620 |
| **GOF4** | **Ail strwythuro unedau incwm Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Ailstrwythuro Polisi Codi Tal/Cyllid Cleientau/Uned Hawliau Lles<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Parhau fel y mae heb gapasiti i wella. Diffyg hyder yng ngallu'r Uned i gasglu incwm cywir a phrydlon. Gwrthod cyfle i facsimeiddio incwm cleientau. | Gwen Carrington | £57,760 | £0 | Cefnogi'r bid yn unol ag uchelgais y Cyngor i wella Gwasanaethau Cymdeithasol mewn ymateb i'r Adolygiad ar y cyd. Y Pennaeth Gwasanaeth wedi blaenoriaethu cyllideb, sy'n cynnwys tanwariant a lwfans demograffig | £0 | £0 | £57,760 |
| **GOF8** | **Gwella cefnogaeth weinyddol i Tîm Oedolion Arfon**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Creu un swydd Cymhorthydd Gweinyddol yn Arfon<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Dim gwelliant. Peidio ag ymateb i sylwadau Adolygwyr ar y Cyd | Gwen Carrington | £21,630 | £0 | Cefnogi'r bid yn unol ag uchelgais y Cyngor i wella Gwasanaethau Cymdeithasol mewn ymateb i'r Adolygiad ar y cyd. Y Pennaeth Gwasanaeth wedi blaenoriaethu cyllideb, sy'n cynnwys tanwariant a lwfans demograffig | £0 | £0 | £21,630 |

| Cyfeirnod | Mater gyda goblygiadau cyllidol | Pennaeth Gwasanaeth / Swyddog | Swm y cais gwreiddiol | | Argymhellion y Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad | Symiau yr argymhellir eu cyllido | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Parhaol | Unwaith ac am byth | | Parhaol | Unwaith ac am byth | Ffynhonnell Arall |
| **GOF14** | **Ffioedd Preswyl**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Sicrhau dilyniant gwasanaeth nyrsio. Y swm yn sicrhau bod lefel ffioedd Cyngor Gwynedd yn gymharol â chyfartaledd Gogledd Cymru 08/09<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Methiant cydymffurfio â disgwyliadau cenedlaethol a lleol ynglŷn â gwaith partneriaethol. Busnesau anibynnol yn methu. Cartrefi nyrsio'n cau. Achosion llys (gweler awdurdodau yn Ne Cymru, e.e. Y Fro) | Gwen Carrington | £355,700 | £0 | Cefnogi'r bid yn unol ag uchelgais y Cyngor i wella Gwasanaethau Cymdeithasol mewn ymateb i'r Adolygiad ar y cyd. Y Pennaeth Gwasanaeth wedi blaenoriaethu cyllideb, sy'n cynnwys tanwariant a lwfans demograffig | £0 | £0 | £355,700 |
| **GOF15** | **Gweithiwr Cymdeithasol (Uwch Ymarferydd) gwasanaeth ar gyfer oedolion bregus**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Cyflogi gweithiwr cymdeithasol ar gyfer y gwaith canlynol :<br>1 Sgopio`r cynnydd yn yr angen gan greu perthynas gyda gwasanaeth Plant er mwyn cynllunio yn fuan ar gyfer anghenion y dyfodol.<br>2 Asesu anghenion yr unigolion yma o dan Deddf National Assistance 1948 a Deddf NHS and Community Care 1990.<br>3 Asesu anghenion eu gofalwyr o dan y ddeddfwriaeth perthnasol.<br>3 Creu pecynnau gofal cynhwysfawr ar gyfer yr unigolion a`u gofalwyr gan sicrhau mewnbwn Cefnogi Pobl a Teleofal.<br>4 Monitro ac adolygu yr achosion yn ôl trefn rheoli gofal.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Risg cynyddol o judicial review a chwynion oherwydd nad yw`r Cyngor yn gallu cyfarch cyfrifoldebau cyfreithiol. | Gwen Carrington | £44,650 | £0 | Cefnogi'r bid yn unol ag uchelgais y Cyngor i wella Gwasanaethau Cymdeithasol mewn ymateb i'r Adolygiad ar y cyd. Y Pennaeth Gwasanaeth wedi blaenoriaethu cyllideb, sy'n cynnwys tanwariant a lwfans demograffig | £0 | £0 | £44,650 |
| **GOF16** | **Gofal cwsmer Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Cryfhau trefniadau gofal cwsmer a gwybodaeth drwy greu swydd Swyddog Gofal Cwsmer Ychwanegol i sicrhau cefnogaeth effeithiol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a defnyddwyr gwasanaeth. Mae gan bob sir arall yn y Gogledd (heblaw am Ynys Môn) 2 swyddog gofal cwsmer/gwybodaeth ar wahan i'r gwasanaethau oedolion a phlant ynghyd â thimau o swyddogion sicrwydd ansawdd.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Methiant i gydymffurfio â gofynion Adolygiad ar y Cyd (dysgu o gwynion, sicrwydd ansawdd, deunyddiau gwybodaeth etc), methiant i weithredu yn unol â threfn statudol cwynion yn effeithiol a methiant i gydymffurfio â deddfau gwybodaeth | Gwen Carrington | £37,670 | £0 | Cefnogi'r bid yn unol ag uchelgais y Cyngor i wella Gwasanaethau Cymdeithasol mewn ymateb i'r Adolygiad ar y cyd. Y Pennaeth Gwasanaeth wedi blaenoriaethu cyllideb, sy'n cynnwys tanwariant a lwfans demograffig | £0 | £0 | £37,670 |
| **GOF 17** | **Uned Gomisiynu Contractau**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Uwchraddio dwy swydd, a cyllido un swydd ychwanegol yn yr Uned Comisiynu a chontractau<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Un o brif wendidau a ganfyddwyd gan yr Adolygiad ar y Cyd. | Gwen Carrington | £46,410 | £0 | Cefnogi'r bid yn unol ag uchelgais y Cyngor i wella Gwasanaethau Cymdeithasol mewn ymateb i'r Adolygiad ar y cyd. Y Pennaeth Gwasanaeth wedi blaenoriaethu cyllideb, sy'n cynnwys tanwariant a lwfans demograffig | £0 | £0 | £46,410 |
| **GOF 18** | **Adnoddau Prosiect RAISE**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Cyflogi arbennigwr allanol i gynorthwyo gyda datblygiad y system RAISE yng Ngwynedd<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Risg i'r Cyngor o fethu symud ymlaen yn amserol gyda'r rhaglen mewnosod systemau RAISE oherwydd diffyg gwybodaeth arbennigol am y gwasanaeth ar y system. Risg i ddefnyddwyr y gwasanaeth o ran data. | Gwen Carrington | £0 | £58,750 | Blaenoriaeth Corfforaethol i gefnogi ymateb y Cyngor i'r Adolygiad ar y Cyd | £0 | £58,750 | £0 |

| Cyfeirnod | Mater gyda goblygiadau cyllidol | Pennaeth Gwasanaeth / Swyddog | Swm y cais gwreiddiol | | Argymhellion y Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad | Symiau yr argymhellir eu cyllido | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Parhaol | Unwaith ac am byth | | Parhaol | Unwaith ac am byth | Ffynhonnell Arall |
| **GOF20** | **Demensia / Moderneiddio Gofal Cartref**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Rheolwr Prosiect ar gyfer y prosiectau allweddol ar gyfer moderneiddio o fewn y rhaglen wella Adolygiad ar y Cyd<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Risg na fydd y Cyngor yn ymateb i'r gofynion sy'n codi gyda demensia yn y ffordd fwyaf cywir. Risg na chaiff y prosiect ei redeg yn y ffordd fwyaf effeithlon i'r Cyngor. | Gwen Carrington | £0 | £29,380 | Blaenoriaeth Corfforaethol i gefnogi ymateb y Cyngor i'r Adolygiad ar y Cyd | £0 | £29,375 | £0 |
| **GOF 21** | **Adolygiad ar y Cyd - Rheolwr Rhaglen**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Rheolwr Rhaglen ar gyfer yr Adolygiad ar y Cyd.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Adolygiad ar y Cyd ddim yn ymateb yn unol â'r disgwyliadau - mesurau arbennig. Cost cyflogi am 3 blynedd | Gwen Carrington | £0 | £117,500 | Blaenoriaeth Corfforaethol i gefnogi ymateb y Cyngor i'r Adolygiad ar y Cyd | £0 | £117,500 | £0 |
| **GOF 21a** | **Adolygiad ar y Cyd - Uwch Reolwr Rhaglen**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Uwch Reolwr Rhaglen ar gyfer yr Adolygiad ar y Cyd.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Adolygiad ar y Cyd ddim yn ymateb yn unol â'r disgwyliadau - mesurau arbennig. Cost cyflogi am 3 blynedd | Gwen Carrington | £0 | £133,540 | Blaenoriaeth Corfforaethol i gefnogi ymateb y Cyngor i'r Adolygiad ar y Cyd | £0 | £0 | £133,540 |
| **GOF 22** | **2 swydd Therapydd Galwedigaethol (materion Tai).**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Datblygu cynllun 2 swydd Therapydd Galwedigaethol i gydweithio ar faterion Tai ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Plant (1).<br>Gofalu fod achosion ar gyfer eu cyfeirio ar gyfer tai yn cael eu paru yn addas gyda'r ddarpariaeth sydd ar gael.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Peidio ymateb i anghenion y cwsmer yn y modd mwyaf effeithlon. | Gwen Carrington | £42,080 | £0 | Cefnogi'r bid yn unol ag uchelgais y Cyngor i wella Gwasanaethau Cymdeithasol mewn ymateb i'r Adolygiad ar y cyd. Y Pennaeth Gwasanaeth wedi blaenoriaethu cyllideb, sy'n cynnwys tanwariant a lwfans demograffig | £0 | £0 | £42,080 |
| **GOF 23** | **Cyllid ar gyfer offer arbenigol symud a thrin yn y cartrefi preswyl cofrestredig**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Nid oes cyllid digonol yng nghyllidebau y cartrefi ar gyfer offer a dodrefn.<br>Mae anghenion defnyddwyr ein gwasanaeth wedi dwysau dros y blynyddoedd diwethaf ac mae angen llawer mwy o welyau arbenigol ac offer symud a thrin ar y cartrefi.<br>Mae gofyn statudol dan y Ddeddf Safonau Gofal bod yr offer yn y cartrefi o safon dderbyniol er mwyn gallu cyfarfod anghenion y defnyddwyr.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Y risg o beidio ymateb yw nad yw'r offer angenrheidiol yn y cartrefi i gyfarfod anghenion asesedig defnyddwyr gwasanaeth bregus sydd â dibyniaeth uchel. Gall hyn arwain i'r cartrefi un a'i fod yn gwrthod defnyddwyr newydd sydd â dibyniaeth uchel a/neu yn darparu gwasanaeth mewn ffordd nad yw'n ddiogel i ddefnyddwyr oherwydd nad yw'r offer addas ar gael. | Gwen Carrington / Morwenna Edwards | £37,800 | £20,000 | Cefnogi'r bid yn unol ag uchelgais y Cyngor i wella Gwasanaethau Cymdeithasol mewn ymateb i'r Adolygiad ar y cyd. Y Pennaeth Gwasanaeth wedi blaenoriaethu cyllideb, sy'n cynnwys tanwariant a lwfans demograffig | £0 | £0 | £57,800 |
| **GOF 24** | **Cefnogi datblygiad teleofal o fewn y Cyngor**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Cynyddu effeithlonrwydd a moderneiddio gwasanaethau cymdeithasol a lleihau costau hir dymor wrth hyrwyddo annibyniaeth. Lleihau costau pecynnau cymhleth ac ymestyn y cyfnod y mae angen cefnogaeth benodol gan Wasanaethau Cymdeithasol.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Methu cefnogi 400 o gleientiaid sydd eisoes yn derbyn y gwasanaeth. Risg o fethu cyfleoedd i foderneiddio GC, gan gynnwys arbedion amlinellwyd. | Gwen Carrington | £0 | £703,990 | Achos busnes i'w ddatblygu a'i gyllido os yw'n briodol o adnoddau buddsoddi i arbed. | £0 | £0 | £703,990 |

| Cyfeirnod | Mater gyda goblygiadau cyllidol | Pennaeth Gwasanaeth / Swyddog | Swm y cais gwreiddiol | | Argymhellion y Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad | Symiau yr argymhellir eu cyllido | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Parhaol | Unwaith ac am byth | | Parhaol | Unwaith ac am byth | Ffynhonnell Arall |
| **TAI** | | | | | | | | |
| **GOF12** | **Swyddog Atal Digartrefedd (De)**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Bid i barhau i gyflogi swyddog atal digartrefedd (cytundeb presennol yn dod i ben 31/03/09). Mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn y nifer o geisiadau digartrefedd yn sgil cyflogi swyddogion atal digartrefedd gan arwain at arbediad ariannol sylweddol (lleihau gwariant ar letya pobl digartref). Rhagwelir cynnydd yn nifer y bobl yn gofyn am gymorth oherwydd yr hinsawdd ariannol presennol.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>• Cynnydd yn y nifer yn gwneud cais digartrefedd<br>• Cynnydd yn y gwariant ar lety dros dro.<br>• Methiant i gyflawni amcanion Strategaeth Cenedlaethol Digartrefedd (atal digartrefedd)<br>• Methu targed dangosyddion perffformiad | Berwyn Parry Jones | £32,180 | £0 | Tystiolaeth fod gwaith y swyddogion ataliol yn gwneud gwahaniaeth trwy osgoi mwy o ddigartrefedd. Mae hyn yn ei dro yn arbed arian i'r Cyngor drwy beidio gorfod buddsoddi mwy mewn llety i'r digartref. Argymhellir ariannu'r bid ar sail barhaol. | £32,180 | £0 | £0 |
| **GOF13** | **Warden rhan amser Safle Sipsiwn a Theithwyr Llandegai**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Cais i gyflogi warden safle ar sail rhan amser i gynyddu presenoldeb dydd i ddydd ar y safle sipsiwn a theithwyr Llandegai a sicrhau capasiti i gynorthwyo yn y gwaith safleoedd anawdurdodedig.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Risg i ddirywiad yn safon y safle, rheolaeth y safle ac arwain at ymddygiad troseddol all, (fel brofwyd yn y gorffennol), effeithio ar fusnesau gyferbyn yn Stad Ddiwydiannol Llandegai. Peryg na fydd y Cyngor yn cyflawni dyletswyddau statudol (e.e cynnal ymholiadau lles) mewn perthynas â safleoedd anawdurdodedig, nac ymateb yn amserol. | Ffrancon Williams | £15,000 | £0 | Adnoddau annigonol i gynnal gwasanaeth craidd, sy'n cynnwys gwersyllwyr | £15,000 | £0 | £0 |
| **GOF26** | **Digartrefedd - costau ychwanegol lletya oherwydd y 'credit crunch'**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Oherwydd y wasgfa ariannol, rhagwelir mwy o bobl yn colli eu tai, a mwy o landlordiaid preifat yn mynd i drafferthion. Byddai y gost o ymateb i'r cynnydd disgwyliedig ar gyfer pobl sy'n cael eu derbyn yn ddigartref yn disgyn ar yr Adran Dai.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Costau Digartrefedd yn cynyddu yn creu gorwariant. Hefyd byddai unrhyw ymyrraeth ataliol yn arbed costau lletya (Gwario i Arbed) | Berwyn Parry Jones | £30,000 | £170,000 | Elfen o ansicrwydd ynghylch maint y galw. Argymhellir sefydlu cronfa ar gyfer ymateb i achosion o'r fath, os a phan maent yn codi | £0 | £100,000 | £0 |
| **GOF27** | **Cefnogaeth Strategol Prosiectau Gofal**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Adnodd ar gyfer prif brosiectau allweddol y Cyngor, yn cynnwys Prosiect Pleidlais Stoc Tai a Phrosiect Adeiladu i'r Dyfodol<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Diffyg arbenigedd ar lefel uchel ar brosiectau allweddol Cynllun 3 Blynedd. | Dafydd P Lewis | £0 | £68,489 | Argymhellir cyllido yr adnodd hanfodol o ran prosiectau blaenoriaeth ee Pleidlais Stoc Tai ac Adeiladu i'r dyfodol ar y cyd gyda'r cronfa refeniw Tai. | £0 | £52,190 | £17,397 |
| **CORFFORAETHOL** | | | | | | | | |
| **COR2** | **Rheolwr Partneriaethau Masnachol**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Yn bresennol, nid oes fframwaith adolygu gwasanaethau mewn lle gan y Cyngor a gyda'r her sylweddol iawn sydd yn ein hwynebu o ran y wasgfa ariannol genedlaethol, argymhellir mai'r cam allweddol nesaf i'r Cyngor yw sefydlu a gweithredu trefn o'r fath. Goblygiadau yn ogystal o ran rheoli partneriaethau pan fydd penderfyniad i sefydlu trefn ddarparu gwahanol.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Bydd yr adolygiadau strategol yn cyfrannu'n sylweddol at yr agenda arbedion. Diffyg adrodd yn rhwystro'r Cyngor rhag adnabod a chyflawni partneriaethau newydd er lles y Cyngor. | Geraint George | £54,297 | £0 | Gwaith ar achos busnes amlinellol y gwasanaeth ymgynghoriaeth ynghyd â peilot o'r broses Adolygu Gwasanaeth Strategol yn cadarnhau'r angen â'r budd potensial o'r buddsoddiad. Argymhellir Cyllido | £54,297 | £0 | £0 |

**Atodiad A**

| Cyfeirnod | Mater gyda goblygiadau cyllidol | Pennaeth Gwasanaeth / Swyddog | Swm y cais gwreiddiol | | Argymhellion y Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad | Symiau yr argymhellir eu cyllido | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Parhaol | Unwaith ac am byth | | Parhaol | Unwaith ac am byth | Ffynhonnell Arall |
| **DAT21** | **Swydd Cydraddoldeb Anabledd**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Ymestyn swydd - Swyddog Cydraddoldeb Anabledd y Cyngor yn sgil gofynion deddfwriaeth Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005. Bid i ariannu'r swydd ar sail dros dro am flwyddyn arall.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Mae deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd2005 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i "fabwysiadu ymagwedd ragweithiol, drwy brif ffrydio cydraddoldeb anabledd ym mhob penderfyniad a gweithgarwch". | Sharon Warnes | £0 | £32,000 | Ariannu ar sail Unwaith ac am Byth am 12 mis i barhau â'r gwaith o ddiwallu'r anghenion ar y Cyngor o ran mynediad anabl | £0 | £32,000 | £0 |
| **CYFANSWM** | | | **£3,072,486** | **£1,706,649** | | **1,378,677** | **1,148,115** | **1,928,387** |

| Sgôr risg yn unol â'r matrics risg |
| --- |
| 2B |
| 2C |
| 1A |
| 2B |

| Sgôr risg yn unol â'r matrics risg |
| --- |
| |
| 3B |
| |
| 3A |
| 3A |
| |
| 2C |

| Sgôr risg yn unol â'r matrics risg |
|---|
| 3B |
| 2A |
| 2A |
| 3C |
| [redacted] |
| 1A |

| Sgôr risg yn unol â'r matrics risg |
| --- |
| |
| 3B |
| 3B |
| 1A |
| 3B |

| Sgôr risg yn unol â'r matrics risg |
| --- |
| |
| 2A |
| 2A |
| 2A |
| 2A |
| 3B |

| Sgôr risg yn unol â'r matrics risg |
| --- |
| 3A |
| 3B |
| |
| 2A |
| 3A |
| 2A |
| 3A |

| Sgôr risg yn unol â'r matrics risg |
| --- |
| 1A |
| 3A |
| 3A |
| 3A |
| 2A |

| Sgôr risg yn unol â'r matrics risg |
|---|
| 2C |
| 2B |
| 2B |
| 3A |
| 2B |
| 2A * |

| Sgôr risg yn unol â'r matrics risg |
| --- |
| |
| 2B |
| 3C |
| 3C |
| 3C |
| |
| 2B |

| Sgôr risg yn unol â'r matrics risg |
|---|
| 2C |